

RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL: 27/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 26/03/2020

Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg?

Dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol 36 a 37

Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn cynnwys cwestiynau ynghylch a yw pobl yn gallu siarad Cymraeg, pa mor aml maent yn gwneud hynny, a pha mor rhugl ydynt. Gofynnir y cwestiynau i bobl 16 oed a hŷn.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn **2018-19**, ac mae'n rhoi golwg gyffredinol ar y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg o ddydd i ddydd. Mae'n diweddarar y [dadansoddiad blaenorol a oedd yn seiliedig ar arolwg 2014-15](#).

Prif ganfyddiadau

Gan gadw pob ffactor arall yn gyson¹, canfuwyd bod y ffactorau isod yn gysylltiedig â siarad Cymraeg.

Ffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg yn gyffredinol:

- Bod yn iau
- Bod yn berchen/feddiannydd

Ffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg bob dydd, a gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau:

- Plant yn byw ar yr aelwyd
- Teimlo bod pobl yn y gymuned leol yn **trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth**

Ffactorau sy'n gysylltiedig â'r ddwy elfen:

- Bod yn **fenyw**
- **Lefel uchel o gymwysterau addysg**
- Bod yn **Gristion**
- Bod yn **wyn**
- Bod yn **gyflogedig**
- Byw mewn **ardal wledig**
- Byw yng **Ngwynedd**, yn Ynys Môn neu yng Ngheredigion
- **Ymdeimlad o berthyn** i'r gymuned leol.

Fel sy'n wir am bob dadansoddiad fel hyn, nid ydym yn gallu priodoli achos ac effaith na chaniatáu ar gyfer ffactorau nad ydynt wedi cael eu mesur yn yr arolwg.

¹ Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau yn y gwaith dadansoddi hwn. Felly, hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (ee iechyd cyffredinol ac oedran), gellir archwilio'r cyswllt rhwng pob ffactor a'r debygolïaeth o siarad Cymraeg yn annibynnol.


1. Y Cefndir	3
2. Y cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol	3
3. Dull dadansoddi	4
4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg yn gyffredinol	5
4.1 Dadansoddi – siarad Cymraeg yn gyffredinol	6
4.1.1 Ffactorau demograffig	7
Rhyw	7
Grŵp oedran	7
Cyrhaeddiad addysgol	7
Ethnigrwydd	8
Crefydd	8
4.1.2 Ffactorau economaidd-gymdeithasol	8
Statws cyflogaeth	8
4.1.3 Nodweddion yr aelwyd	8
Deiliadaeth	8
4.1.4 Nodweddion yr ardal leol	9
Dosbarthiad ardal	9
Awdurdod lleol	9
4.1.5 Cydlyniant cymunedol	10
Ymdeimlad o berthyn i ardal leol	10
4.2 Y ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg (yn gyffredinol)	10
4.3 Dadansoddi'r ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gyffredinol, ond sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg	10
5. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg o ddydd i ddydd	11
5.1 Dadansoddi	13
5.1.1 Ffactorau demograffig	13
Rhywedd	13
Cyrhaeddiad addysgol	13
Ethnigrwydd	14
Crefydd	14
5.1.2 Ffactorau economaidd-gymdeithasol	14
Statws cyflogaeth	14
5.1.3 Nodweddion yr ardal leol	15
Dosbarthiad ardal	15
Awdurdod lleol	15
5.1.4 Cydlyniant cymunedol	16
Ymdeimlad o berthyn i ardal leol	16
Pobl o gefndiroedd gwahanol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth	16
5.2 Y ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â siarad Cymraeg o ddydd i ddydd	16
6. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil	17
Atodiad A – Crynodeb o'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gyffredinol, ond sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau	19
Atodiad B – Siart yn dangos y berthynas rhwng pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gyffredinol, ond sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, ac awdurdod lleol	20

1. Y Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am dargedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgyssylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith o nodau llesiant² (**Ffigur 1**).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur sut mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn mesur cynnydd yn erbyn 15 o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Mae'r arolwg yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb â hapsampl o 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar [Ddangosydd Cenedlaethol 37](#): 'Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg' (yn gyffredinol) a [Dangosydd Cenedlaethol 36](#): 'Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau Cymraeg'.



Ffigur 1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant³

2. Y cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol

Casglwyd gwybodaeth a oedd yn berthnasol i Ddangosydd Cenedlaethol 37 drwy ofyn i bobl a oeddent yn siarad Cymraeg. Gallai pobl ateb 'ydw', 'nac ydw', neu 'nac ydw, ond rwy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg' i'r cwestiwn hwn.

Mae Dangosydd Cenedlaethol 36 (a yw pobl yn siarad Cymraeg o ddydd i ddydd) yn seiliedig ar bobl a oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg o leiaf a'u bod hefyd yn 'siarad Cymraeg bob dydd'.

Roedd cyfanswm o 18% o bobl wedi dweud eu bod yn gallu siarad o leiaf rhywfaint o Gymraeg; ac roedd 11% wedi dweud eu bod yn siarad Cymraeg o ddydd i ddydd.


² Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, sydd ar gael [ar-lein](#).

3. Dull dadansoddi

Er mwyn deall yn glir sut mae pob ffactor unigol yn cyfrannu at bobl yn siarad Cymraeg yn gyffredinol, ac o ddydd i ddydd, rydym wedi defnyddio **techneg ystadegol³ i edrych ar y cysylltiad⁴ rhwng ffactorau penodol a chanran y bobl sy'n siarad Cymraeg, gan gadw pob ffactor arall yn gyson**. Mae cadw pob ffactor arall yn gyson (cyfeirir at hyn fel rheoli ffactorau eraill hefyd) yn bwysig oherwydd mae'n caniatáu i ni edrych ar bob ffactor yn annibynnol (hynny yw, sicrhau nad oes ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr effaith rydym yn ei mesur). Er enghraifft, gallem edrych ar y cysylltiad rhwng dau ffactor ar wahân (cymhwyster uchaf a statws cyflogaeth) a phobl yn siarad Cymraeg (yn gyffredinol). Efallai ein bod ni'n gwybod bod cysylltiad rhwng y cymhwyster uchaf sydd gan rywun â phobl yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, gallai cymhwyster uchaf fod yn gysylltiedig â statws cyflogaeth hefyd (gweler **Ffigur 2**). Er mwyn edrych ar effaith un ffactor yn unig (ee cymhwyster uchaf) ar siarad Cymraeg, mae arnom angen rheoli effaith pob ffactor arall. Mae modd i ni gael syniad llawer gwell o sut mae un ffactor unigol yn gysylltiedig â siarad Cymraeg, heb ddylanwad ffactorau eraill.

Cymhlethdod y perthnasoedd rhwng ffactorau

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, mae'n bwysig nodi na allwn bob amser fod yn sicr ynghylch pa ffactorau sy'n achosi, a pha ffactorau sy'n cael eu hachosi, gan siarad Cymraeg. Mae'r berthynas hon yn amlwg yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol ar gyfer rhai ffactorau. Er enghraifft, gallai bod yn fenyw fod yn gysylltiedig â thebygolïaeth uwch o siarad Cymraeg (yn gyffredinol); fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw rhywun yn siarad Cymraeg (yn gyffredinol) yn gysylltiedig â newid mewn rhywedd. Fodd bynnag, nid yw'r berthynas hon mor amlwg ar gyfer ffactorau eraill.⁵



Ffigur 2. Pwysigrwydd cadw pob ffactor arall yn gyson wrth ddadansoddi ystadegau.

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegyddion ystadegol arwyddocaol o siarad Cymraeg, fel sydd wedi'u profi gan y model atchweliad rydym wedi'i ddewis. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'ymylon rhagfynegi' – sy'n cael eu cyflwyno fel canrannau (%) – i ddangos y tebygolrwydd o berthynas rhwng pob ffactor (gan gadw pob ffactor arall yn gyson) â'r newidyn dibynnol (siarad Cymraeg). Mae'r canlyniadau yn dangos pa mor debyg yw un grŵp 'cyffredin' o bobl â

³ Atchweliad logistaidd yw'r enw ar hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr [adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol](#).

⁴ Mae'r dadansoddiad hwn yn gallu dweud wrthym am *debygolïaeth* perthnasoedd rhwng ffactorau, ond ni all ddweud wrthym am berthnasoedd anffurfiol.

⁵ Gall y berthynas hon fod yn hyd yn oed mwy cymhleth, oherwydd gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi'u hystyried eto (ac nad ydynt ar gael gan yr Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn gysylltiedig â siarad Cymraeg ac ymdeimlad o berthyn.


nodwedd a rennir (ee menywod) o siarad Cymraeg, o'i gymharu â grŵp 'cyffredin' arall o bobl â nodwedd wahanol a rennir (ee dynion) mewn un ffactor penodol (ee rhyw). Mae bariau ansicrwydd ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% ar gyfer yr ymylon rhagfynegi i bob grŵp. Mae bariau ansicrwydd sy'n gorgyffwrdd yn golygu nad yw hi'n gwbl glir pa grŵp yn y ffactor yw'r mwyaf rhagfynegol, er bod ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol o siarad Cymraeg.

4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg yn gyffredinol


Roedd cyfanswm o **18%** o bobl yn dweud eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg o leiaf. Mae Ffigur 3.1 yn dangos pob un o'r ffactorau hyn (gan **gadw pob ffactor arall yn gyson**) y canfuwyd eu bod yn gysylltiedig â siarad Cymraeg. Mae'r grŵp gyda'r tebygolrwydd mwyaf (canran) o siarad Cymraeg wedi'i amlygu mewn glas golau ar gyfer pob ffactor.

Caiff pob un o'r ffactorau hyn eu dadansoddi'n fwy manwl yn yr adrannau canlynol. Hefyd, fe wnaethom edrych ar y debygliaeth o bobl yn siarad Cymraeg ar lefel pob awdurdod lleol: gweler [Adran 4.1.4](#).

Ffigur 3.1 Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg (yn gyffredinol)



Ffigur 3.1 (parhad) Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg (yn gyffredinol).



4.1 Dadansoddi – siarad Cymraeg yn gyffredinol

Gan gadw pob ffactor arall yn gyson, canfuwyd bod y ffactorau isod yn gysylltiedig â siarad Cymraeg yn gyffredinol. Mae ffactorau unigol sy'n rhannu nodweddion tebyg yn cael eu grwpio yn ôl **themâu** (ee ffactorau demograffig). Rhestrir y ffactorau y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg yn gyffredinol yn [Adran 4.2](#).


Pan ofynnwyd i bobl a oeddent yn gallu siarad Cymraeg, roedd 15% o bobl wedi ateb 'nac ydw, ond rwy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg'. Ar gyfer y gwaith dadansoddi yn yr adran hon, rydym wedi trin yr ateb hwn fel ateb 'nac ydw'. Yna, rydym wedi gwneud rhagor o waith dadansoddi i edrych ar ba ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn dweud nad ydynt yn siarad Cymraeg, ond eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Dangosir hyn yn [Adran 4.3](#).

4.1.1 Ffactorau demograffig

Rhyw

Roedd **menywod** yn fwy tebygol o siarad Cymraeg, o'u cymharu â dynion. Gweler **Ffigur 4.1**.


Ffigur 4.1 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) a rhyw.



Grŵp oedran

Ar y cyfan, roedd **pobl iau** yn fwy tebygol o siarad Cymraeg, o'u cymharu â phobl hŷn. Pobl 16-24 oedd y mwyaf tebygol o siarad Cymraeg, a phobl 65-74 oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.2**.


Ffigur 4.2 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) a grŵp oedran.



Cyrhaeddiad addysgol

Pobl a oedd â chymhwyster addysg uwch (gradd) oedd y mwyaf tebygol o siarad Cymraeg, a phobl heb gymwysterau oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.3**.

Ffigur 4.3 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) a chyrhaeddiad addysgol.



Ethnigrwydd

Pobl o gefndir ethnig gwyn (Prydeinig, Cymreig, Seisnig, ac ati) oedd y mwyaf tebygol o siarad Cymraeg. Pobl o gefndiroedd ethnig gwyn eraill oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.4**.

Crefydd

Pobl sy'n dweud eu bod yn Gristion oedd y mwyaf tebygol o siarad Cymraeg, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn dilyn unrhyw grefydd. Gweler **Ffigur 4.5**.

4.1.2 Ffactorau economaidd-gymdeithasol

Statws cyflogaeth


Pobl a oedd yn gweithio oedd y mwyaf tebygol o siarad Cymraeg a phobl ddi-waith oedd y lleiaf tebygol – gweler **Ffigur 4.6**.

4.1.3 Nodweddion yr aelwyd


Deiliadaeth

Pobl a oedd yn byw mewn tŷ yn eiddo i **berchen-feddianwyr** oedd y mwyaf tebygol o siarad Cymraeg, o'u cymharu â phobl yn byw mewn tai cymdeithasol. Gweler **Ffigur 4.7**.


Ffigur 4.4 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) ac ethnigrwydd.




Ffigur 4.5 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) a chrefydd.



Ffigur 4.6 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) a statws cyflogaeth.



Ffigur 4.7 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) a deiliadaeth.




4.1.4 Nodweddion yr ardal leol

Dosbarthiad ardal

Roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na phobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Gweler **Ffigur 4.8**.


Ffigur 4.8 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) a dosbarthiad ardal.



Awdurdod lleol

Roedd pobl yn fwyaf tebygol o siarad Cymraeg os oeddent yn byw yng **Ngwynedd**, ac yn lleiaf tebygol yng **Nghasnewydd**. Mae'r ardaloedd â thebygolrwydd llawer uwch o bobl sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hamlygu mewn glas golau (**Ffigur 4.9**).


Ffigur 4.9 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg (yn gyffredinol) ac awdurdod lleol.



4.1.5 Cydlyniant cymunedol

Ymdeimlad o berthyn i ardal leol

Pobl a oedd yn 'cytuno'n gryf' eu bod yn cael **ymdeimlad o berthyn** i'w cymuned leol oedd y mwyaf tebygol o siarad Cymraeg. Gweler **Ffigur 4.10**.



4.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â siarad Cymraeg (yn gyffredinol)

Yn y dadansoddiad hwn, roedd ffactorau eraill wedi'u cynnwys yn ein model atchweliad, ond **ni** wnaethom ganfod cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a phobl yn siarad Cymraeg (yn gyffredinol):

- Amddifadedd materol.
- A oes plant yn byw ar yr aelwyd.
- A yw pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal leol.
- A yw pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

4.3 Dadansoddi'r ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gyffredinol, ond sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg

Roedd cyfanswm o **15%** o bobl wedi dweud nad oeddent yn siarad Cymraeg, ond eu bod yn **gallu siarad rhywfaint o Gymraeg**. Er mwyn ymchwilio i'r ateb hwn ymhellach, fe wnaethom ddadansoddi'r grŵp penodol hwn o bobl ar wahân. Roedd y bobl a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn yn uniongyrchol drwy ddweud 'ydw' neu 'nac ydw' wedi cael eu rhoi mewn grŵp 'arall' er mwyn i ni allu gweld pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn ateb 'nac ydw, ond rwy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg'. Mae **Tabl 1** yn crynhoi'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r ateb unigol hwn, ac mae **Atodiadau A a B** yn dangos dadansoddiad mwy manwl o bob un o'r ffactorau hyn.

Tabl 1. Crynodeb o'r ffactorau y canfuwyd sy'n gysylltiedig â phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg, ond sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg


Thema	Ffactor	Mwyaf tebygol o beidio â siarad Cymraeg ond yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg
Ffactorau demograffig	<i>Rhywedd</i>	Menywod
	<i>Oedran</i>	Pobl iau
	<i>Cyrhaeddiad addysgol</i>	Addysg uwch
Ffactorau economaidd-gymdeithasol	<i>Ethnigrwydd</i>	Gwyn (Cymreig, Prydeinig)
Nodweddion yr ardal leol	<i>Awdurdod lleol</i>	Abertawe
Nodweddion yr aelwyd	<i>A oes plant yn byw ar yr aelwyd</i>	Oes
Ffactorau economaidd-gymdeithasol	<i>Statws cyflogaeth</i>	Yn gyflogedig

5. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg o ddydd i ddydd


Roedd cyfanswm o **11%** o bobl wedi dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, a'u bod yn gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau. Mae **Ffigur 5.1** yn dangos yr holl ffactorau unigol (gan **gadw'r ffactorau eraill yn gyson**) y canfuwyd a oedd yn gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg bob dydd, ac yn gallu dweud mwy na dim ond ychydig o eiriau. Mae'r grŵp gyda'r tebygolrwydd mwyaf (canran) o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd wedi'i amlygu mewn glas golau ar gyfer pob ffactor.

Ceir dadansoddiad mwy manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn yr adrannau canlynol. Hefyd, fe wnaethom ddadansoddi'r debygolïaeth o bobl yn siarad Cymraeg o ddydd i ddydd ar lefel pob awdurdod lleol: ceir rhestr yn [Adran 5.1.3](#).

Ffigur 5.1 Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg bob dydd, ac yn gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau.



Ffigur 5.1 (parhad) Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg bob dydd, ac yn gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau.



5.1 Dadansoddi – siarad Cymraeg o ddydd i ddydd


Gan gadw'r holl ffactorau eraill yn gyson, canfuwyd bod y ffactorau canlynol yn gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, ac yn siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau. Mae ffactorau unigol sy'n rhannu nodweddion tebyg yn cael eu grwpio yn ôl **themâu** (ee ffactorau demograffig). Rhestrir y ffactorau y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg bob dydd, ac yn siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau, ar dudalen 16.

5.1.1 Ffactorau demograffig

Rhyw

Canfuwyd bod menywod yn fwy tebygol na dynion o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd. Gweler **Ffigur 5.3**.


Ffigur 5.3 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd a rhyw.



Cyrhaeddiad addysgol

Pobl ag addysg uwch (hynny yw, gradd Baglor neu uwch) oedd â'r siawns uchaf o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, o'u cymharu â'r rheini heb gymwysterau. Gweler **Ffigur 5.4**.


Ffigur 5.4 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd a chyrhaeddiad addysgol.



Ethnigrwydd

Ar y cyfan, roedd pobl a oedd yn dweud eu bod yn wyn (**Cymreig, Seisnig, Prydeinig**, ac ati) yn fwy tebygol o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd o'u cymharu ag unrhyw grŵp ethnig arall. Gweler **Ffigur 5.5**.


Ffigur 5.5 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd ac ethnigrwydd.



Crefydd

Roedd gan bobl a oedd yn Gristion, neu a oedd â chrefydd arall, siawns uwch o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd o'u cymharu â phobl heb grefydd. Gweler **Ffigur 5.6**.

Ffigur 5.6 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd a chrefydd.




5.1.2 Ffactorau economaidd-gymdeithasol

Statws cyflogaeth

Ar y cyfan, roedd pobl a oedd **yn gweithio** yn fwy tebygol o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, o'u cymharu â'r bobl ddi-waith neu economaidd anweithgar. Y bobl ddi-waith oedd y lleiaf tebygol o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd. Gweler **Ffigur 5.7**.

Ffigur 5.7 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd a statws cyflogaeth.




5.1.3 Nodweddion yr ardal leol

Dosbarthiad ardal

Fel y gwelir yn **Ffigur 5.8**, roedd pobl a oedd yn byw mewn **ardal wledig** yn fwy tebygol o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, o'u cymharu â phobl o ardaloedd trefol.


Ffigur 5.8 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd a dosbarthiad ardal.



Awdurdod lleol

Roedd pobl yn fwyaf tebygol o siarad Cymraeg os oeddent yn byw yng **Ngwynedd**, ac yn lleiaf tebygol yn **Sir Fynwy**. Roedd gan rai ardaloedd awdurdod lleol debygolrwydd neilltuol o uwch o gael siaradwyr Cymraeg o'u cymharu â'r gweddill (wedi'u hamlygu mewn glas – gweler **Ffigur 5.9**).

Ffigur 5.9 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd ac awdurdod lleol.



5.1.4 Cydlyniant cymunedol


Ymdeimlad o berthyn i ardal leol

Ar y cyfan, roedd pobl a oedd yn cytuno eu bod yn cael **ymdeimlad o berthyn i'w cymuned leol** yn fwy tebygol o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, o'u cymharu â phobl a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwnnw. Pobl a oedd yn 'cytuno'n gryf' eu bod yn cael ymdeimlad o berthyn oedd â'r siawns uchaf o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, a'r rhai a oedd yn 'anghytuno'n gryf' oedd â'r siawns isaf. Gweler **Ffigur 5.10**.


Pobl o gefndiroedd gwahanol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth

Roedd pobl a oedd yn cytuno bod **pobl o gefndiroedd gwahanol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth** yn fwy tebygol o siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, na'r rheini a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwnnw. Gweler **Ffigur 5.11**.

Ffigur 5.10 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd ac ymdeimlad o berthyn i awdurdod lleol.



Ffigur 5.11 Y berthynas rhwng siarad Cymraeg o ddydd i ddydd ac a yw pobl yn trin ei gilydd â pharch.



5.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â siarad Cymraeg bob dydd a siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau Cymraeg

Yn y dadansoddiad hwn, roedd ffactorau eraill wedi'u cynnwys yn ein model atchweliad, ond **ni** wnaethom ganfod cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a chanran y bobl sy'n siarad Cymraeg o ddydd i ddydd.

- Grŵp oedran.
- Deiliadaeth.
- Amddifadedd materol.
- A yw pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn y gymuned leol.

6. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol

Yn gryno, rydym wedi dadansoddi ffactorau (a themâu cyffredinol) sy'n gysylltiedig â **Dangosydd Cenedlaethol 37: 'Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg'** (yn gyffredinol) a **Dangosydd Cenedlaethol 36: 'Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau Cymraeg'**. Hefyd, fe wnaethom edrych ar agwedd arall ar Ddangosydd Cenedlaethol 37: 'Canran y bobl nad oeddent yn siarad Cymraeg yn gyffredinol, ond a oedd yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg'.

Roedd pum thema ganolog⁶ wedi dod i'r amlwg yn ein dadansoddiad:

1. Ffactorau demograffig.
2. Ffactorau economaidd-gymdeithasol.
3. Nodweddion yr aelwyd.
4. Nodweddion yr ardal leol.
5. Ymdeimlad o gymuned.

Gallai'r berthynas rhwng ffactorau penodol a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg fod yn fwy cymhleth na'r hyn a awgrymir yn yr adroddiad hwn, a gallai'r canlyniadau **amrywio** rhwng ac o fewn gwahanol ardaloedd. Felly, gallai rhagor o ymchwil gynnwys mwy o ymchwiliadau ar raddfa fach sy'n cynnwys dulliau ymchwil ansoddol⁷ neu ddulliau cymysg⁸.

⁶ Gyda'i gilydd, roeddem wedi edrych ar ffactorau a oedd yn gysylltiedig â **7 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Llesiant** fel rhan o brosiect yn defnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Canfuwyd bod rhai ffactorau yn gysylltiedig â mwy nag un Dangosydd Cenedlaethol, felly rydym wedi darparu dogfen ar wahân sy'n tynnu sylw at y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ffactorau unigol, a'r themâu cyffredinol, y canfuwyd sy'n gysylltiedig â'r holl Ddangosyddion Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein: Hafferty, C. (2020). *Themâu allweddol sy'n gysylltiedig â detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019>.

⁷ Defnyddir **ymchwil ansoddol** yn aml i ddeall rhesymau, safbwyntiau a chymhelliant sylfaenol pobl; er mwyn gweld y tueddiadau o ran meddyliau a safbwyntiau pobl er mwyn i ni ddeall mater penodol yn well. Mae dulliau casglu data ansoddol yn aml yn ddulliau ar raddfa fach, sy'n casglu data heb fod yn rhifol drwy ddefnyddio technegau fel cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil *feintiol* yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifol y gellir eu defnyddio wrth ddadansoddi ystadegau, yn aml er mwyn cynhyrchu canlyniadau cyffredinol i sampl fawr o boblogaeth (ee agweddau, ymddygiad a safbwyntiau). Er enghraifft, dyma sut mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn bennaf.

⁸ Mae **'dulliau cymysg'** yn ddull ymchwil sy'n cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol yn yr un astudiaeth. Wrth i lunwyr polisiâu, ymarferwyr a phobl eraill mewn meysydd cymhwysol anelu at baratoi ymchwil seiliedig ar wybodaeth ar sail sawl math o dystiolaeth, (er enghraifft llesiant cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, sy'n cynnwys sawl agwedd), gall ymchwil dulliau cymysg fod yn ffordd dda o archwilio'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn.

Awdur yr adroddiad: Caitlin Hafferty



Safbwyntiau'r ymchwilyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


Siobhan Evans
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: Siobhan.Evans@gov.wales

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-352-4

Atodiad A – Crynodeb o'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gyffredinol, ond sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau.



Atodiad B – Y berthynas rhwng pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gyffredinol, ond sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, ac awdurdod lleol.

